

Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

19 Chwefror 2021

Parthed: Fframwaith Iaith Gymraeg statudol

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennwn atoch ar y cyd yn dilyn trafodaethau Cyfnod 2 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg a dileu Cymraeg Ail Iaith ers 2015. Bydd y continwwm yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu a'r addysgu ar draws y cwricwlwm ac yn arbennig wrth drosglwyddo o ysgolion cynradd i uwchradd.

Mae Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn gam pwysig tuag at sefydlu continwwm dysgu Cymraeg. Rydym yn siomedig gyda'r penderfyniad i wrthod y gwelliant i'r Bil fyddai wedi sicrhau Cod Addysgu'r Gymraeg ar un Continwwm. Fodd bynnag croesawn eich awgrym i lunio Fframwaith Iaith Gymraeg statudol a fyddai'n rhoi arweiniad clir a chanllawiau pellach ar weithredu'r continwwm.

Cytunwn yn llwyr gyda chi bod dirfawr angen cynnig cefnogaeth ac arweiniad clir i'r sector cyfrwng Saesneg (yn ogystal ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ac eraill o fewn y system addysg a gynhelir a nas gynhelir), ar sut i weithredu dull continwwm sy'n datblygu sgiliau disgyblion yn y Gymraeg i'r eithaf - fel sy'n digwydd ym mhob maes a phwnc arall. Fel yr rydych wedi nodi, mae gan y sector cyfrwng Saesneg rôl greiddiol yn y cydymdrech i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, ac mae angen arweiniad manwl a chadarn er mwyn sicrhau ymbaratoi strategol, effeithiol.

Fe gyfeirioch chi, gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 29 Ionawr, at y posibilrwydd "*that we could make that framework a compulsory framework and a statutory framework*" ac mi fyddem yn ffafrio hynny'n gryf iawn gan fod y newid hwn yn un gweddnewidiol sy'n golygu newidiadau sylfaenol i ddulliau dysgu, cynllunio, dilyniant, a datblygiad sylweddol o ran addysgeg a sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg. Mae angen canllaw clir, statudol, ynghylch yr hyn sy'n ddisgwyliedig dros y tymor byr, canolig a hir, o ran camau gweithredu a deilliannau. Mi allai'r Fframwaith fod yn fodd o ddod â'r diffiniadau o ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ynghyd â disgwyliadau'r Cod Cynnydd er mwyn gosod y llwybr datblygiad yn glir, a bod cysylltiad yn cael ei wneud yn ogystal gyda'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Tybiwn fod angen cyfeirio at y Fframwaith ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau statws statudol, ac er mwyn rhoi arwydd clir i'r sector addysg a gynhelir a nas gynhelir ynghylch difrifoldeb Llywodraeth Cymru am sicrhau y gweithredir y continwwm yn effeithiol.

Gwelwn yma gyfle i sicrhau fod yr amrywiol agweddau o strategaeth Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r system addysg, i sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yn cydgysylltu'n glir ac yn drefnus er mwyn sbarduno'r broses o sicrhau fod 55% o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg ar ddiwedd eu haddysg statudol yn 2027 a 70% ohonynt erbyn 2050.

Gan fod y ffenestr ar gyfer gwelliannau'r Llywodraeth yn cau heddiw, gofynnwn i chi ystyried cefnogi unrhyw welliant i'r Bil yng Nghyfnod 3 fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Iaith Gymraeg statudol.

Byddem yn hapus iawn i drafod y mater ymhellach petai hynny'n ddefnyddiol - a hynny cyn trafodaethau Cyfnod 3 - ac yn naturiol, byddai diddordeb mawr gennym fod yn rhan o'r grŵp o randdeiliaid fydd yn datblygu'r Fframwaith dros y misoedd i ddod.


Yn gywir,



**Alun Llwyd, Swyddog Proffesiynol,
Cymdeithas Ysgolion dros Addysg
Gymraeg (CYDAG)**



**Mabli Siriol Jones, Cadeirydd,
Cymdeithas yr Iaith**



**Heini Gruffudd, Cadeirydd,
Dyfodol i'r Iaith**



**Gwenllian Lansdown Davies, Prif
Weithredwr, Mudiad Meithrin**



**Wyn Williams, Cadeirydd, Rhieni
dros Addysg Gymraeg (RhAG)**



**Rebecca Williams,
Is-ysgrifennydd Cyffredinol,
UCAC**

c.c.

Lynne Neagle AS, Cadeirydd, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg